# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan
**Nos Iau 25 Gorffennaf 2019**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Griff Morris

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Pearl Evans

**Cyngor Sir:**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams .
**Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Bleddyn Williams, Walter Wiliams, Susan Davies a Dyfrig Jones.

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyngr. Neville Hughes a Griff Morris.

**3. Materion Brys**
**3.1** Swyddfa Bost – pawb yn falch o weld y swyddfa ar agor yn Londis. Roedd arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod dros dro, ond rhai dwyieithog wedi eu gosod bellach. Y Clerc i ysgrifennu atynt yn dymuno'n dda i'r fenter.
**3.2** Wal cae pêl-droed Parc Meurig – golwg bregus ar rhannau o'r wal. Y Clerc i gysyltu â perchennog y tir ac hefyd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru gyda'n pryderon o gyflwr y wal.
**3.3** Arwyddion newydd Ogwen Bank – arwyddion mawr uniaith Saesneg wedi eu gosod ar ochr y ffordd. Ein sylwadau wedi eu hanfon at Swyddog Cynllunio, Cyngor Gwynedd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** John Street, Bethesda – cwynion wedi eu derbyn am feiciau a beiciau modur yn rasio ar y ffordd gul. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd i osod arwydd 'mynediad i breswylwyr yn unig' ar dop y lôn a hefyd gofyn wrth yr heddlu i fonitro'r safle. Ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd. "Yn anffodus gan fod y ffordd yma yn un cyhoeddus a hefyd gyda statws llwybr cyhoeddus, mae hawl gyfreithiol i unrhyw un yw defnyddio yn di rhwystr ac felly i'r perwyl hwn ni allwn gefnogi eich cais." Y Clec i holi unwaith eto am syniadau ar gyfer datrysiad.

**5.2 Offer cae chwarae Pantdreiniog–** Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod y prisiau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw eu gofynion sylfaenol ar gyfer llawr i'r cae chwarae, gan bod llawr 'rubber mulch' a 'wetpour' yn ddrud ofnadwy. Bydd angen i'r Is-bwyllgor a'r Pwyllgor Cyllid drafod y ffigyrau ymhellach.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Tynwyd sylw at y ffaith bod llawer o brosiectau cyffrous ar y gweill, ond dim capasiti ar gyfer gwireddu'r cwbl. Adroddwyd bydd adroddiad yn dod gan y Bartneriateh bob deufis, yn dilyn cyfarfod y Bwrdd. Derbyniwyd yr adroddiad, ac anfon diolch i'r staff i gyd am yr holl waith.

**7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**
Balchder Bro – cynllunio ar gyfer cynllun ehangach gyda'r basgedi crog ar gyfer flwyddyn nesaf.

**8. Camerau TCC**
Y Clerc wedi cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o gael bod yn rhan o system newydd y Cyngor. Y pwyllgor Cyllid i edrych ar y ffigyrau pan ddaw'r dyfynbris.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Y Cyng. Paul Rowlinson wedi trefnu sesiwn 'drop in' yn Caban Gerlan i ddiweddaru trigolion Gerlan ar y prosiect, ar gyfer 30.07.19. Cynan Jones am fod yn bresennol hefyd.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2019'
**10.1** E-bost gan Dilwyn Llwyd, Neuadd Ogwen – cais am rodd tuag at ddigwyddiad llenyddol yn gŵyl Ara Deg mis Medi. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon cyfrannu £200 tuag at gostau'r digwyddiad.
**10.2** E-bost Merched Chwarel a'r Rhwydwaith Cyfuno – digwyddiad i'w gynnal yn Llys Dafydd 02.08.2019. Pawb yn falch o glywed bod Llys Dafydd yn cael ei ddefnyddio.
**10.3** E-bost gan Ysgol Dyffryn Ogwen – cais am y rhodd flynyddol tuag at y noson wobrwyo ym mis Medi. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gyfrannu eto eleni.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**
**C18/1159/13/AM**

| | |
|---|---|
| Y Wern, Hen Fferm Gerlan | Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |

**C19/0008/13/LL**

| | |
|---|---|
| Church of Saint Pius X and Blessed Richard Gwyn, Bethesda | Newid defnydd cyn Eglwys Gatholig yn uned fechan ar gyfer diwydiant ysgafn ar gyfer cynhyrchu caws arbenigol gyda llaw |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| **C19/0559/13/LL**<br>4 Braichmelyn, Bethesda | Estyniadau, newidiadau, creu llecynnau parcio a mynedfa newydd<br>**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd |
| **C19/0546/13/LL**<br>88 Ffordd Carneddi, Bethesda | Codi tŷ newydd<br>**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru |
| <u>**Ceisiadau**</u><br>**C19/0602/13/LL**<br>1 Tan y Gaer, Carneddi | Adeildau tŷ newydd deulawr ynghyd a mynedfa newydd<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad, ond pryder am y ffos sydd yno. |
| **C19/0601/13/LL**<br>55 a 57 Stryd Fawr, Bethesda | Newid defnydd siop a caffi'n stiwdio celfyddid ymladd<br>**Penderfyniad:** Cefnogi, braf gweld busnes ar y stryd fawr a rhywbeth i'r plant i gymryd rhan. |
| **C19/0604/13/R3**<br>Ysgol Gynradd Llanllechid, Ffordd Coetmor, Rachub<br>*(Cyng. Godfrey Northam yn datgan diddordeb)* | Dymchwel adeilad modiwlar presennol a chodi adeilad modiwlar newydd mewn lleoliad gwahanol a datblygiadau cysylltiedig<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Gorffennaf) | £284.57 |
| CThEM (Gorffennaf) | £71.20 |
| Scottish Power – nwy Gorffwysfan | £1689.91 |
| Scottish Power – trydan Gorffwysfan | £57.48 |
| Partneriaeth Ogwen – Llys Dafydd | £90.00 |
| Scottish Power – golau nadolig | £24.70 |
| Partneriaeth Ogwen – Cyfraniad Swyddog Cynnal | £3235.81 |
| C Jackson – cynnal a chadw llwybrau | £1998.50 |
| C Jackson – trwsio fainc | £95.00 |